

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 18 Mehefin 2025

Annwyl Cyngorydd,

CYNGOR

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Hybrid in the Council Chamber Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 25 Mehefin 2025** am **16:00**.

AGENDA

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2 Datganiadau o fuddiant

Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3 Cymeradwyaeth Cofnodion

7 - 28

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 02/04/2025, 09/04/2025 a 14/05/2025

4 Cyflwyniad i'r Cyngor gan gynrychiolwyr Valleys To Coast (V2C)

29 - 30

5 I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:

- (i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
- (ii) Prif Weithredwr

6 Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

Ffon/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/SMS Messaging: 07581 157014 [Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Test relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croseawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

- 7 Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy 31 - 100
- 8 Diwygio Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau 101 - 104
- 9 Alldro Cyllideb Refeniw 2024-25 105 - 152

10 Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

Cwestiwn gan y Cyngorydd Colin Davies i'r Aelod Cabinet Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid

Yn gynharach eleni, rhoddodd yr aelod Cabinet dros Addysg gyhoeddiad mewn perthynas â phryderon a godwyd ynghylch troseddau cyllyll a diogelwch yn Ysgolion BCBC.

Cyhoeddodd y byddai'n sefydlu Grŵp Tasg Arbennig yn cynnwys amrywiaeth o Randdeiliaid i drafod a mynd i'r afael â'r mater hynod ddifrifol hwn.

Felly, a all yr aelod Cabinet dros Addysg roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn?

11 Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

Cwestiwn gan y Cyngorydd Martin Williams i'r Aelod Cabinet Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid

Yn dilyn beth a adroddwyd am ysgol St Claire's ym Mhorthcawl yn cau, pa gyswllt y mae CBSP wedi'i gael â rheolwyr yr ysgol i ganfod yr effaith/pwysau tebygol y bydd y cau yn ei roi ar ysgolion yr awdurdod hwn? Beth yw'r effaith honno a pha gefnogaeth fydd yn cael ei gynnig i ddisgyblion a rhieni yn ystod y cyfnod hynod bryderus hwn.

12 Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

Cwestiwn gan y Cyngorydd Tim Thomas i'r Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Ers y flwyddyn 2008, faint o Gytundebau Adran 106 sydd wedi:

1. cymryd mwy na 5 mlynedd i'w cwblhau ar ôl derbyn cais.
2. mwy na 10 mlynedd i'w cwblhau ar ôl derbyn cais.
3. parhau'n anghyflawn neu heb eu datrys ar ôl derbyn cais, dros a thu hwnt i 10 mlynedd?

13 Rhybudd o Gynnig gan y Cyngorydd Jon-Paul Blundell

Rwy'n cynnig bod y Cyngor yn nodi bod Bil Hawliau Cyflogaeth 2024 yn fil a fydd yn diweddarau ac yn cryfhau hawliau cyflogaeth yn y DU
Mae'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y bil yn cynnwys.

Gwahardd contractau dim oriau ecsbloetiol drwy gyflwyno hawliau i oriau gwarantedig.
Rhoi terfyn ar arferion diegwyddor "diswyddo ac ail-gyflogi" drwy ystyried unrhyw ddiswyddiadau am fethu â chytuno ar newid contract fel rhai annheg yn awtomatig.
Darparu hawl i amddiffyniad rhag diswyddo annheg o'r diwrnod cyntaf.
Sicrhau hawl i absenoldeb tadolaeth o ddiwrnod cyntaf cyflogaeth.
Cyflwyno hawl newydd i absenoldeb profedigaeth di-dâl sy'n caniatáu i weithwyr gymryd o absenoldeb o'r gwaith i alaru am golli anwylyd.
Cryfhau dyletswydd cyflogwyr i atal aflonyddu rhywiol ar eu gweithwyr drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd pob cam ataliol rhesymol
Gwella mynediad at dâl salwch statudol drwy gael gwared ar y terfyn enillion is a chael gwared ar y cyfnod aros o dri diwrnod.
Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr, ac mae'r bil yn cynnwys lluo o fesurau a gynlluniwyd i gynyddu cynhyrchiant, codi safonau byw a chreu cyfleoedd i bawb..

Mae'r cyngor hwn yn credu:

Bod y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y bil yn cynrychioli'r uwchraddiad mwyaf mewn hawliau cyflogaeth mewn cenhedlaeth ac, unwaith y bydd y bil wedi'i basio, y bydd bywydau gwaith a theuluol trigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gwella'n sylweddol

Mae'r cyngor hwn yn penderfynu:

Ysgrifennu at lywodraeth y DU ar ran trigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y bil.

14 Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Martin Williams

Mae'r cyngor hwn yn cydnabod yr heriau rydym yn eu hwynebu wrth recriwtio gweithredwyr i dorri glaswellt, yn dilyn y penderfyniad i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol, a'r effaith y mae'n ei chael ar ein cymunedau.

O dan ethos Un Cyngor o gydweithio, rydym felly'n penderfynu gofyn i'r cabinet ystyried cysylltu â phob cyngor tref a chymuned cyn gynted â phosibl a chynnig eu talu i gyflawni'r gwasanaeth yn eu hardaloedd fel mesur dros dro, os ydynt yn fodlon ac yn gallu.

15 Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

16 Gwahardd y Cyhoedd

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem ganlynol i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Os bydd y

Panel, yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghorwr:

S Aspey

H T Bennett

A R Berrow

F D Bletsoe

S J Bletsoe

JPD Blundell

E L P Caparros

N Clarke

Clatworthy

RJ Collins

HJ David

C Davies

C L C Davies

P Davies

S Easterbrook

M J Evans

N Farr

P Ford

J Gebbie

W R Goode

RM Granville

H Griffiths

S J Griffiths

GH Haines

D T Harrison

M L Hughes

D M Hughes

RM James

P W Jenkins

M R John

M Jones

W J Kendall

M Lewis

J Llewellyn-Hopkins

RL Penhale-Thomas

J E Pratt

R J Smith

JC Spanswick

I M Spiller
T Thomas
JH Tildesley MBE
A Ulberini-Williams
G Walter
A Wathan
AJ Williams
HM Williams
I Williams
MJ Williams
R Williams
E D Winstanley
T Wood